

# Cariad – gorchymyn?

*“Dyma fy ngorchymyn i: carwch eich gilydd fel y cerais i chwi.” (adn. 12)*

## Beth am ddarllen Ioan 15:12–17 ac yna myfyrio

O'r holl orchymynion adawodd Iesu yn etifeddiaeth i ni, does yr un yn fwy heriol na hwn: “carwch eich gilydd fel y cerais i chwi.” Cariad Iesu yw'r safon a ffynhonnell ein cariad at ein gilydd. Ond sut yn y byd y gellir gorchymyn rhywun i garu? Byddai seicolegwyr yn dweud ei bod yn amhosibl drwy weithred o ewylllys i gynhyrchu cariad. Pan ddown yn Gristnogion mae cariad Crist yn llenwi ein calonnau gymaint fel mai mater o ewylllys ydy penderfynu caniatáu i'r cariad hwnnw lifo allan tuag at eraill. Dydyn ni ddim yn ei gynhyrchu, dim ond yn penderfynu gadael iddo lifo allan i'r un graddau ag mae'n lifo i mewn.

Yn drychinebus, mae sawl rhan o'r Eglwys Gristnogol yng nghanol rhyfel cartref. Mae rhai credinwyr yn rhoi mwy o egni i ymladd â'i gilydd nag yn erbyn grymoedd ysbrydol drwg. Does dim sy'n dwyn anfri mor gyflym ar yr Efengyl. Unwaith eto, rydyn ni'n eich annog i ystyried pa mor wahanol fyddai'r Eglwys pe byddai pob crediniwr sy'n ei ganfod ei hun yn anghytuno â Christion arall yn dilyn gorchymyn yr Arglwydd i garu fel y mae ef yn caru. Ni all crediniwr ei esgusodi ei hun drwy ddweud nad yw'n teimlo cariad yn ei galon. Mae cariad Iesu yno, a'r cyfan sydd ei angen yw rhyddhau'r cariad hwnnw. Mae gan bob Christion gronfa o gariad wedi'i rhoi o'i fewn gan y Gwarddwr.

Yn ôl Paul, oedd yn ddiamau yn un o'r Cristnogion mwyaf: “... y mae cariad Crist yn ein gorfodi ni” (2 Cor. 5:14). Mewn geiriau eraill, roedd yn cael ei reoli gan gariad Crist. Mae bod o dan reolaeth cariad Crist yn golygu ein bod yn gallu drachtio ar ei gariad a gwneud yr hyn sy'n gariadus – rydyn ni'n caru ar air ac ar weithred. A pheidwch â meiddio dweud bod hyn yn amhosibl. Os dywedwch hynny, yna rydych yn dweud yn syml nad ydy cariad Crist yn eich rheoli er ei fod yn eich calon.

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

1 Sam. 18:1–4; 20:16–17, 42; Ioan 17:9–12; Eff. 4:32–5:2

## Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth oedd yn uno Dafydd a Jonathan mewn cariad cyfamodol?
2. Am beth y gweddiodd Iesu?

## Gweddi

O Dad, rwyt ti wedi gorchymyn fy mod i garu. Os gweli di'n dda, helpa fi i ufuddhau rŵan. Ces fy newis i ddwyn ffrwyth, yn arbennig y ffrwyth o garu eraill. Does gennyf ddim esgusion. O heddiw ymlaen, rwyf am garu fel yr wyf yn cael fy ngharu. Yn enw Iesu. Amen.